Strategaethau Presenoldeb, Prydlondeb ac

Ymddygiad.

Mae ymddygiad a phresenoldeb cadarnhaol yn sylfeini hanfodol ar gyfer creu amgylchedd dysgu ac addysgu creadigol ac effeithiol lle gall pob aelod o gymuned yr ysgol ffynnu, cael eu parchu a theimlo`n ddiogel.
Mae polisi a weithredir yn dda yn ffactor pwysig ar gyfer ennill hyder disgyblion a rhieni mewn ysgol a denu a chadw staff brwdfrydig o ansawdd da.

Rhoddir pwyslais ar bresenoldeb rheolaidd er mwyn sicrhau fod y disgybl yn derbyn addysg briodol ac yn cael y budd mwyaf o`r cyfleoedd addysgol a gynigir.
Cyfrifoldeb yr ysgol a`r ysgol yn unig yw awdurdodi a chategoreiddio absenoldebau. Os rhoddwyd cymeradwyaeth ymlaen llaw neu os derbyniwyd esboniad boddhaol gan y rhiant, diffinir yr absenoldeb yn un awdurdodedig.
Fel arall absenoldeb anawdurdodoedig yw.
O safbwynt perfformiad academaidd y disgyblion rheiny sy`n absennol, mae ymchwil yn profi fod cydberthynas clos rhwng presenoldeb gwael a chanlyniadau academaidd.
Wrth gynnal Arolygiadau mae ESTYN yn ystyried presenoldeb is na 90% yn fater o bryder.
Caniateir dileu enw disgybl ar gofrestr derbyniadau dan yr amgylchiadau canlynol :-

. Pan fo gorchymyn mynychu ysgol sy`n enwi`r ysgol wedi ei newid neu ei ddiddymu.
. Pan fo`r disgybl wedi ei gofrestru mewn ysgol arall.
. Pan fo`r disgybl wedi peidio mynychu a`r rhieni wedi bodloni`r Awdurdod Addysg bod y trefniadau a wneir ganddynt yn briodol.
. Pan fo`r disgybl wedi symud cartref ac y byddai parhau i fynychu`r ysgol dan sylw yn afresymol.
. Pan fo`r disgybl heb ddychwelyd i`r ysgol o fewn 10 diwrnod wedi derbyn caniatâd i fod yn absennol i bwrpas gwyliau teulu.
. Pan fo Swyddog Meddygol Ysgolion wedi cadarnhau fod iechyd y disgybl yn golygu ei fod yn annhebygol o allu cael budd o fynychu cyn cyrraedd oedran ymadael ar ysgol.
. Yn dilyn methiant rhesymol i ddarganfod y disgybl wedi iddo fod yn absennol am gyfnod di-dor o ddim llai na 4 wythnos.
. Pan fo`r disgybl wedi marw.
. Pan fo`r disgybl wedi mynd tu draw i`r oed gorfodol ysgol ac yn bwriadu peidio mynychu`r ysgol.
. Pan fo`r disgybl wedi ei wahardd yn barhaol a phrosesau apêl wedi eu dihysbyddu.
. Pan fo disgybl a dderbyniodd addysg feithirn heb drosglwyddo i ddosbarth derbyn.

Nid oes gan rieni hawl i dynnu eu plant o`r ysgol i bwrpas gwyliau teulu a rhaid iddynt ofyn am ganiatâd yn unol â`r trefniadau a fabwysiadwyd gan Gorff Llywodraethol Ysgol Nefyn. * 10 diwrnod y flwyddyn ar y mwyaf*
Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y caniateir absenoldeb am gyfnod o gyfanswm o fwy na 10 diwrnod mewn blwyddyn.
OND rhoddwn ystyriaeth unigol i bob cais oddi mewn i`r meini prawf canlynol :-

. Yr amser o`r flwyddyn
. Hyd y gwyliau
. Pwrpas y gwyliau
. Effaith ar ddilyniant addysgol
. Amodau`r teulu
. Presenoldeb cyffredinol y plentyn

Gall cyfnodau hir o wyliau effeithio`n andwyol ar gyrhaeddiad y disgybl.
Byddwn yn annog y disgyblion i gyflawni gweithgareddau addysgol tra byddant i ffwrdd ac i adrodd ynghylch eu profiadau ar ôl dychwelyd.
Oni bai bo`r rhieni`n cydymffurfio â threfniadau`r Corff Llywodraethol bydd yr absenoldeb yn un anawdurdodedig.
Cyfrifoldeb y Gwasaneth Lles Addysg yw monitro presenoldeb disgyblion.
Bydd y Gwasanaeth yn gweithio`n agos â theuluoedd ac ysgolion mewn ymgais i wella patrymau presenoldeb heb orfod troi at y gyfraith.
Bydd y Swyddog Lles yn :-

. Annog rhieni i ymweld â`r ysgol er mwyn trafod unrhyw bryder.
. Cynnig cyngor a chefnogaeth mewn perthynas â sawl mater sy`n gysylltiedig ag addysg.
. Cynghori rhieni ynghlŷn â dyletswyddau cyfreithiol.
. Ceisio pontio rhwng yr ysgol a`r cartref.
. Dehongli gwahanol sefyllfaoedd ac anghenion ar ran ysgolion a`r Awdurdod.

MEWN ACHOSION LLE NA CHAFWYD LLWYDDIANT TRWY DEG BYDD Y GWASANAETH LLES YN DOD Â`R PLENTYN GERBRON Y LLYS TEULU GYDA GOLWG AR WNEUD CAIS AM ORCHYMYN GORUCHWYLIAETH ADDYSGOL

Byddwn yn dilyn camau `Y Cefndir Cyfreithiol - `Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion`

Ystyrir erlyn rhieni pan fo presenoldeb disgybl wedi syrthio islaw 70% dros gyfnod o ddau dymor.
Cyn erlyn byddwn yn dilyn y camu canlynol :-

. Gweithredu ystod eang o strategaethau ataliol ar lefel ysgol a thrwy`r Gwasaneth Lles Addysg.
. Cynnal Cyfarfod Strategaeth.
. Asesu cyfrifoldeb y rhieni am yr absenoldeb.
. Rhoi rhybudd terfynol i`r rhieni.
. Ystyried priodoldeb gwneud cais i Lys Ynadon am Orchymyn Goruchwyliaeth Addysg.

Gwneir y penderfyniad i erlyn ai peidio gan y Swyddog Lles Addysg mewn ymgynghoriad â Chyfreithiwr y Sir.
Byddwn yn gweithio gyda rhieni a disgyblion i hybu presenoldeb cyn cymryd unrhyw gam at erlyn.

Ein nôd yn Ysgol Nefyn
Bydd plant Ysgol Nefyn yn cyrraedd yr ysgol erbyn 8:50 y bore fel fod y gwersi`n cychwyn am 9:00.
Mae presenoldeb disgyblion yn un o brif flaenoriaethau`r ysgol.
Enwebwyd aelodau o`r Uwch Dim Rheoli i fod yn gyfrifol am reoli a monitro materion sy`n ymwneud â phresenoldeb – Y Pennaeth a`r Dirprwy Bennaeth.
Rydym yn meddu ar bolisi pendant ac uchelgeisiol o safbwynt presenoldeb.
Gosodir targed ar gyfer pob blwyddyn ysgol yn unigol. Ein targed eleni yw ____%
Manteisiwn ar systemau electroneg o gofrestru`r disgyblion.
Byddwn yn monitro a chyhoeddi ystradegau presenoldeb o fewn yr ysgol ar ddiwedd pob mis.
Ein nôd yw arddangos lefelau presenoldeb yn fisol mewn man sy`n agored i ddisgyblion a staff. (yn y cyntedd / neuadd)
Mae`r plentyn yn hwyr os yw`n cyrraedd yr ysgol ar ôl 9:00 y bore a bydd yn cael ei farcio`n hwyr ar y cofrestr.
Byddwn yn cadw cofnod o`r disgyblion sy`n cyrraedd ar ôl 9:00 y bore mewn llawlyfr gan nad yw hyn yn dderbyniol heb reswm digonol.
Byddwn yn pwysleisio cyswllt rhwng absenoldeb a chyrhaeddiad gostynol mewn trafodaethau â`r disgybl neu`r rhieni / disgybl a`r rhieni.
Byddwn yn cyflwyno system o ddathlu a gwobrwyo presenoldeb da unigolion a grwpiau blwyddyn (100%). Yn yr un modd byddwn yn dathlu a gwobrwyo patrwm presenoldeb a wellodd yn ystod y flwyddyn. (Tystysgrifau ac Amser Aur ychwanegol ar bnawn Gwener).
Byddwn yn disgwyl i rieni plant sy`n absennol ffonio`r ysgol cyn 8:45 y bore gydag eglurhâd ac anfon llythyr gyda`r plentyn pan fydd yn dychwelyd i`r ysgol fel fod cofnod ysgrifenendig yn yr ysgol.
Os na fyddwn wedi derbyn eglurhâd cyn diwedd y dydd yna byddwn yn cysylltu â chartref y plentyn i holi am yr absenoldeb.
Anelwn at leihau`r nifer o ddiwrnodau a gollir oherwydd gwylaiu teulu`n ystod tymor ysgol.

Byddwn yn cofrestru presenoldeb plant ddwywaith y diwrnod – ar ddechrau sesiwn y bore ac unwaith yn ystod sesiwn y prynhawn. Rhaid i`r gofrestr ddangos a yw`r absenoldeb wedi ei awdurdodi gan yr ysgol neu`n absenoldeb heb awdurdod.
Cedwir rhestr o enwau`r plant a fu`n absennol ymhob dosbarth yn ofalus gyda rheswm am yr absenoldeb wedi ei nodi ar y daflen.

Camau gweithredu Ysgol Nefyn pan gyfyd problem
Gweithio`n agos â`r rhiant.
Trafod absenoldeb heb awdurdod yn gynnar rhwng y disgybl a`r athro sy`n gyfrifol am ei gofrestru.
Cyfarfodydd rhwng yr ysgol, y rhieni a`r disgybl i ddarganfod y rhesymau am yr absenoldeb heb awdurdod.
Ystyried a allai problemau presenoldeb fod yn gysylltiedig ag angen addysgol arbennig sydd heb ei adnabod ac, fel bo`n briodol, darparu cymorth ychwanegol drwy gyfrwng Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Neu drwy wneud cais am asesiad statudol.
Cyfarfodydd gyda rhieni i drafod strategaethau yn yr ysgol ac yn y cartref sy`n hybu mynychu`r ysgol yn rheolaidd.
Defnyddio dulliau o annog / gwobrwyo presenoldeb da neu breseboldeb sy`n gwella.
Defnyddio dulliau sy`n gweithio yn erbyn absenoldeb 9hynny yw, cadw cofnod ynghylch y disgybl, llythyrau at rieni)
Cynghori yn yr ysgol.
Ni fyddwn yn gwahardd disgyblion o`r ysgol onibai fod y sefyllfa`n pery i hynny fod yn anorfod.
Mae colli`r cyfnod cofrestru oherwydd apwyntiad meddygol neu ddeintyddol yn absenoldeb awdurdodedig.
Rydym yn annog y disgyblion a`r rhieni i wneud apwyntiadau y tu allan i oriau ysgol os yn bosibl
Os bydd disgybl yn bresennol yn ystod y cyfnod cofrestru ond fod ganddo apwyntiad meddygol yn nes ymlaen neu os y bydd yn mynd adref oherwydd salwch ni fydd angen cofnodi absenoldeb ar gyfer y sesiwn honno.
Rydym yn cadw cofnod manwl o`r plant sy`n gadael y safle yn ystod y dydd oherwydd salwch gan ryddhau plant sy`n wirioneddol sâl yn unig.
Ni fydd unrhyw athro . athrawes yn rhyddhau plentyn o`r ysgol heb ganiatâd y Pennaeth / Dirprwy Bennaeth.
Y Pennaeth / Dirprwy Bennaeth / Uwch Gymhorthydd fydd yn cysylltu â`r cartref os yw hynny`n bosibl.

Gan fod presenoldeb yn fater o gonsyrn inni`n Ysgol Nefyn erfyniwn arnoch fel rhieni i`n helpu drwy anfon eich plentyn i`r ysgol onibai fod rheswm am yr absenoldeb – e.e gwaeledd, ymweliad â`r ysbyty. Diolch